Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyllid ar gyfer digwyddiadau busnes: meini prawf asesu

Yn unol ag ymgais Llywodraeth Cymru i gryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy, mae'r Meini Prawf Asesu a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob categori o ddigwyddiadau busnes a gefnogir wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol. Dylid eu darllen ar y cyd â'r *Nodyn Cyfarwyddwyd cysylltiedig ar gyfer Gwneud Cais am Gyllid Digwyddiadau Busnes Cymru*

| **Maes Effaith** | **Meini Prawf** | **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** |
|---|---|---|
| Economaidd | • Yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chyrhaeddiad sectoraidd Llywodraeth Cymru<br>• Yn ategu *Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth 2020-2025 Croeso i Gymru* gan Lywodraeth Cymru; *Cynllun Gweithredu Economaidd* Llywodraeth Cymru a *Strategaeth Ryngwladol* Llywodraeth Cymru<br>• Yn denu ymwelwyr o'r DU ac ymwelwyr rhyngwladol i Gymru<br>• Yn gosod neu'n hyrwyddo Cymru fel lleoliad credadwy i gynnal digwyddiadau busnes<br>• Yn creu manteision economaidd i Gymru drwy dwf busnes a mentrau newydd<br>• Yn hyrwyddo digwyddiadau busnes mewn marchnadoedd allweddol | • Cyfraniad ychwanegol net (£oedd) at economi Cymru (gan ddefnyddio cyfrifiannell economaidd Event IMPACTS) neu gyfrifiannell 'Delegate Expenditure' VisitBritain, gan gynnwys manteision economaidd i'r ardal leol/i gyflenwyr lleol<br>• Ymgysylltu a rhyngweithio â busnesau priodol mewn perthynas â'r digwyddiadau, neu yn ystod y digwyddiadau, drwy gyfleoedd rhwydweithio<br>• Nifer y cyfleoedd o ansawdd da a fydd yn cael eu creu o ran interniaethau neu leoliadau gwaith i fyfyrwyr<br>• Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a fydd yn cael eu creu<br>• Wedi sicrhau buddsoddiad arall o ran y sector preifat a'r sector cyhoeddus<br>• Nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru (y DU a thramor), ac am faint y byddant yn aros |

| | | |
|---|---|---|
| Proffil ac enw da yn rhyngwladol | • Yn hyrwyddo brand Cymru mewn sectorau busnes ac mewn marchnadoedd targed allweddol yn y DU a thramor<br><br>• Yn gosod ac yn hyrwyddo Cymru fel lleoliad o'r radd flaenaf i gynnal digwyddiadau busnes<br><br>• Yn cyd-fynd â *Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru* | • Sylw yn y wasg yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys llwyfannau digidol (mae hyn yn cael ei fesur yn ôl nifer y modfeddi mewn colofnau/erthyglau a lefel y gynulleidfa sy'n cael ei chyrraedd);<br><br>• Lefel y gynulleidfa sy'n cael ei chyrraedd yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol (mae hyn yn cael ei fesur yn ôl nifer yr ymwelwyr gwahanol â'r wefan a'u lleoliad daearyddol)<br><br>• I ba raddau mae'r digwyddiad yn cael effaith gadarnhaol ar werth Brand Cymru |
| Cymdeithasol-ddiwylliannol | • Yn ehangu mynediad at brofiadau cadarnhaol i gynadleddwyr ac yn hybu'r profiadau hynny, drwy gymryd rhan mewn profiadau diwylliannol, a digwyddiadau iechyd a llesiant. | • Nifer a natur y rhaglenni allgymorth |
| Polisïau statudol | • Yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyfle cyfartal<br><br>• Yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn defnyddio'r iaith Gymraeg<br><br>• Yn hyrwyddo ac yn cefnogi dulliau rheoli cynaliadwy, ac yn lleihau gwastraff drwy leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu | • Gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal (sy'n rhoi sylw i gyflogaeth, mynediad at ddigwyddiadau, ac ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol)<br>• Gweithredu Polisi Iaith Gymraeg (sy'n rhoi sylw i berfformiadau/gweithgareddau'r digwyddiad, gohebiaeth am farchnata a mynediad at ddigwyddiadau)<br>• Gweithredu Polisi Digwyddiadau Cynaliadwy (gan gynnwys y camau a gymerwyd i ddilyn canllawiau BS ISO 20121, neu i sicrhau achrediad ffurfiol) |